Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd Nos Iau, 6 Chwefror 2020 yn Neuadd Pentref Carmel

Minutes of the Finance Committee held at Carmel Village Hall, Thursday 6 February 2020 at 7.00pm

Yn bresennol / Present

Cynghorwyr Hywel J Owen; Clive Bayley; Gwyn Owen Jones; Alun Wyn Jones ; Gerwyn Owen; David C Davies; Eddie Willcox; a David Roberts, Rheolwr y Cyngor.

1 Croeso'r Cadeirydd - Chairmans Welcome

Agorwyd y cyfarfod gan Cyng. David C Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid. Diolchodd i'r aelodau oedd yn bresennol. Aeth yn syth at y rhaglen.

2 Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absences

Cyng. Bryn Williams

3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000 / To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000

Cyng. Alun Wyn Jones – yn aelod o Pwyllgor Neuadd Pentref Y Groeslon ac yn aelod o Grwp Deffribiliwr Y Groeslon

Cyng.David C Davies – yn aelod o Pwyllgor Neuadd Pentref Y Groeslon ac yn aelod o Grwp Deffribiliwr Y Groeslon

Cyng. Hywel Owen – aelodau y teulu yn gysylltiedig a Cylch meithrin Groeslon a Pwyllgor Eisteddfod Y Groeslon

4 Rhoddion Ariannol Adran 137 ac eraill– Financial Contributions Section 137 & other

Adroddwyd gan y Rheolwr

- Nifer ceisiadau = **23** (21 y llynedd)
- Swm yn y gyllideb ar gyfer Rhoddion = **£6,000**
- Cyfanswm y gofyn **£11,913** gyda dau gais yn gofyn am unrhyw swm
- Categori A – oddi fewn y gymuned = **14**
- Categori B - mudiadau oddi allan i'r gymuned ond sydd a bydd uniongyrchol i drigolion y gymuned - **8**
- Categori C - mudiadau nad sydd a bydd uniongyrchol i drigolion y gymuned - **1**

Dosbarthwyd rhestr o'r ceisiadau i bob aelod gan y Rheolwr.

Grym y Ddeddf
Mae Adran 137(1) o Deddf 1972 yn caniatáu i Gyngor Cymuned neu Tref wario ar weithgarwch nad oes ganddo bwerau penodol yn ei gylch, os yw'r Cyngor yn ystyried y bydd y gwariant o fudd uniongyrchol i'r ardal, unrhyw ran ohoni, rhai o'r trigolion neu'r holl drigolion, cyn belled â bod y gost yn gyson â'r budd. Mae Adran 137(3) o'r Ddeddf hefyd yn caniatáu i Gynghorau Cymuned a Thref wario at ddibenion elusennol ac eraill penodol ac, yn y ddau achos, yr uchafswm y gellid ei wario o dan adran 137(1) ac (3) ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20 fydd **£8.12** am bob etholwr.

Nodwyd fod pob cais yn disgyn o dan Adran 137 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol sef y grym i awdurdodi gwariant ar weithgareddau lle nad oes gan y Cyngor y pwerau penodol. Ar gyfer cais gan Eisteddfod defnyddir grym Adran145 a chais gan Glwb pêl droed defnyddir grym Adran 19.

Polisi
Atgoffwyd yr Aelodau fod y Cyngor wedi mabwysiadu Polisi Cymorth Ariannol i Fudiadau Gwirfodddol sef ac amodau o roi cymorth ariannol i fudiadau lleol sydd ddim yn gwneud elw.

Mabwysiadwyd y Polisi gan y Cyngor yn yn ei gyfarfod 15 Gorffennaf 2019.

Dosbarthwyd rhestr o'r ceisiadau i bob aelod gan y Rheolwr.

Sgorio
Aethpwyd ati i sgorio y ceisiadau i'r categorïau canlynol

1 – Ydi'r mudiad wedi ei leoli yn y gymuned?
2 – Budd i'r Gymuned
3 – Gwerth yr adnodd
4 – Ydi'r mudiad yn cael ei ariannu o ffynhonnell arall?
5 – Haeddiant

Wedi cwblhau y sgorio penderfynwyd dyfarnu rhodd i pob un oedd wedi scorio yn llawn. Rhoddwyd ystyriaeth i sgôr y gweddill cyn dyfarnu rhodd a'i peidio.

Noder isod y rhodian yr argymhellir ar gyfer 2019-20

Mudiad/Organisation	Argymhelliad i'r Cyngor	Grym y Ddeddf / Power to Act
Eisteddfod Gadeiriol Y Groeslon	£100	Adran 145/ Section 145
Ambiwlans Awyr Cymru	£100	Adran 137/ Section 137
Canolfan Y Fron	£100	Adran 137/ Section 137
Merched Y Wawr Y Groeslon	£100	Adran 137/ Section 137
Cymdeithas Arddio Dyffryn Nantlle	dim	
Clwb Pel-droed Llandwrog	£100	Adran 19/ Section 19
Pwyllgor Neuadd Pentref Y Groeslon	£1,000	Adran 137/ Section 137
Sioe Arddio Y Groeslon	£200	Adran 137/ Section 137
Dawns I Bawb	dim	
Pwyllgor Pentref Llandwrog	£100	Adran 137/ Section 137
Papur Bro Lleu	£300	Adran 137/ Section 137
Ffrindiau Ysgol Llandwrog	£100	Adran 137/ Section 137
Pwyllgor Pentref Carmel	£100	Adran 137/ Section 137
Pwyllgor Neuadd Pentref Carmel	£1,000	Adran 137/ Section 137
Cylch Meithrin Carmel	£400	Adran 137/ Section 137
Ysgol Bro Llifon	£100	Adran 137/ Section 137
OWL Crimewatch North Wales (FWOWLA)	dim	
Clwb Gwawr Llandwrog	£100	Adran 137/ Section 137

Cylch Meithrin Dinas Llanwnda	£200	Adran 137/ Section 137
Canolfan Bro Llanwnda	dim	
Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Nantlle	dim	
Cof y Cwmwd (Canolfan Hanes Uwchgwyrfai)	dim	
Cylch Meithrin Y Groeslon	£400	Adran 137/ Section 137
Cyfanswm / Total	**£4,500**	

Argymhelliad i'r Cyngor

i) Fod y Cyngor yn cymeradwyo'r rhoddion uchod yn cyrraedd cyfanswm o £4,500

ii) Fod y Cyngor yn trosglwyddo'r tanwariant o £1,500 i balansau y Cyngor.

Recommendation to the Council

i) That the Council approves the above contributions totalling £4,500

ii) That the Council transfers the underspend of £1,500 to the Council's balances.

`

5 Asesiad Risg Ariannol

Gohirwyd yr eitwm hwn / This item was deferred

Daeth y cyfarfod i ben am 8:55 yr hwyr / The meeting came to a close at 8:55pm

Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir -	
Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor	
Dyddiad -	